

BRO DWYNWEN 23/08/2026
Y Deuddegfed Sul wedi'r Drindod
Twelfth Sunday after Trinity

Colect 105

Hollalluog a thragwyddol Dduw, rwyt bob amser yn barotach i wrando nag ydym ni i weddio ac yn arfer rhoi mwy nag a ddeisyfwn na'i haeddu: tywallt arnom amllder dy drugaredd, gan faddau inni'r pethau y mae ein cydwybod yn eu hofni a rhoi inni'r pethau daionus hynny nad ydym yn deilwng i ofyn amdanynt, ond trwy haeddiannau a chyfryngdod Iesu Grist ein Harglwydd, sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi, yn undod yr Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth.

Collect 105

Almighty and everlasting God, you are always more ready to hear than we to pray
and to give more than either we desire or deserve: pour down upon us the abundance of your mercy, forgiving us those things of which our conscience is afraid and giving us those good things which we are not worthy to ask but through the merits and mediation of Jesus Christ your Son our Lord, who is alive and reigns with you, in the unity of the Holy Spirit, one God, now and for ever.

Eseia 51. 1-6

"Gwrandewch arnaf, chwi sy'n dilyn cyfiawnder, sy'n ceisio'r ARGLWYDD. Edrychwch ar y graig y'ch naddwyd ohoni, ac ar y chwarel lle'ch cloddiwyd; edrychwch at Abraham eich tad, ac at Sara, a'ch dygodd i'r byd; un ydoedd pan elwais ef, ond fe'i bendithiais a'i amlhau. Bydd yr ARGLWYDD yn cysuro Seion, yn cysuro ei holl fannau anghyfannedd; bydd yn gwneud ei haniafwch yn Eden, a'i diffieithwch yn ardd yr ARGLWYDD; ceir o'i mewn lawenydd a gorfoledd, emyn diolch a sain cân.

"Gwrandewch arnaf, fy mhobl; clywch fi, fy nghenedl; oherwydd daw cyfraith allan oddi wrthyf, a bydd fy marn yn goleuo pobloedd. Y mae fy muddugoliaeth gerllaw, a'm hiachawdwriaeth ar ddod; bydd fy mraich yn rheoli'r bobloedd; bydd yr ynysoedd yn disgwyl wrthyf, ac yn ymddiried yn fy mraich. Codwch eich golwg i'r nefoedd, edrychwch ar y ddaear islaw; y mae'r nefoedd yn diflannu fel mwg, a'r ddaear yn treulio fel dilledyn, a'i thrigolion

yn marw fel gwybed; ond bydd fy iachawdwriaeth yn parhau byth, ac ni phalla fy muddugoliaeth.

Isaiah 51. 1-6

Listen to me, you that pursue righteousness, you that seek the Lord. Look to the rock from which you were hewn, and to the quarry from which you were dug. Look to Abraham your father and to Sarah who bore you; for he was but one when I called him, but I blessed him and made him many. For the Lord will comfort Zion; he will comfort all her waste places, and will make her wilderness like Eden, her desert like the garden of the Lord; joy and gladness will be found in her, thanksgiving and the voice of song.

Listen to me, my people, and give heed to me, my nation; for a teaching will go out from me, and my justice for a light to the peoples. I will bring near my deliverance swiftly, my salvation has gone out and my arms will rule the peoples; the coastlands wait for me, and for my arm they hope. Lift up your eyes to the heavens, and look at the earth beneath; for the heavens will vanish like smoke, the earth will wear out like a garment, and those who live on it will die like gnats; but my salvation will be for ever, and my deliverance will never be ended.

Salm 138

Clodforaf di â'm holl galon, canaf fawl i ti yng ngŵydd duwiau. Ymgrymaf tuag at dy deml sanctaidd, a chlodforaf dy enw am dy gariad a'th ffyddlondeb, oherwydd dyrcheffaist dy enw a'th air uwchlaw popeth. Pan elwais arnat, atebaist fi, a chynyddaist fy nerth ynof.

Bydded i holl frenhinoedd y ddaear dy glodfori, O ARGLWYDD, am iddynt glywed geiriau dy enau; bydded iddynt ganu am ffyrdd yr ARGLWYDD, oherwydd mawr yw gogoniant yr ARGLWYDD. Er bod yr ARGLWYDD yn uchel, fe gymer sylw o'r isel, ac fe ddarostwng y balch o bell.

Er imi fynd trwy ganol cyfyngder, adfywiaist fi; estynnaist dy law yn erbyn llid fy ngelynyddion, a gwaredaist fi â'th ddeheulaw. Bydd yr ARGLWYDD yn gweithredu ar fy rhan. O ARGLWYDD, y mae dy gariad hyd byth; paid â gadael gwaith dy ddwylo.

Psalm 138

I give you thanks, O Lord, with my whole heart; before the gods I sing your praise; I bow down towards your holy temple and give thanks to your name for your steadfast love and your faithfulness; for you have exalted your name and

your word above everything. On the day I called, you answered me, you increased my strength of soul.

All the kings of the earth shall praise you, O Lord, for they have heard the words of your mouth. They shall sing of the ways of the Lord, for great is the glory of the Lord. For though the Lord is high, he regards the lowly; but the haughty he perceives from far away.

Though I walk in the midst of trouble, you preserve me against the wrath of my enemies; you stretch out your hand, and your right hand delivers me. The Lord will fulfil his purpose for me; your steadfast love, O Lord, endures for ever. Do not forsake the work of your hands.

Rhufeiniaid 12. 1-8

Am hynny, yr wyf yn ymbil arnoch, gyfeillion, ar sail tosturiaethau Duw, i'ch offrymu eich hunain yn aberth byw, sanctaidd a derbyniol gan Dduw. Felly y rhowch iddo addoliad ysbrydol. A pheidiwch â chydymffurfio â'r byd hwn, ond bydded ichwi gael eich trawsffurfio trwy adnewyddu eich meddwl, er mwyn ichwi allu canfod beth yw ei ewyllys, beth sy'n dda a derbyniol a pherffaith yn ei olwg ef.

Oherwydd, yn rhinwedd y gras y mae Duw wedi ei roi i mi, yr wyf yn dweud wrth bob un yn eich plith am beidio â'i gyfrif ei hun yn well nag y dylid ei gyfrif, ond bod yn gyfrifol yn ei gyfrif, ac yn gyson â'r mesur o ffydd y mae Duw wedi ei roi i bob un. Yn union fel y mae gennym aelodau lawer mewn un corff, ond nad oes gan yr holl aelodau yr un gwaith, felly hefyd yr ydym ni, sy'n llawer, yn un corff yng Nghrist, ac yn aelodau bob un i'w gilydd. A chan fod gennym ddoniau sy'n amrywio yn ôl y gras a roddwyd i ni, dylem eu harfer yn gyson â hynny. Os proffwydoliaeth yw dy ddawn, arfer hi yn gymesur â'th ffydd. Os dawn gweini ydyw, arfer hi i weini. Os addysgu yw dy ddawn, arfer dy ddawn i addysgu, ac os cynghori, i gynghori. Os wyt yn rhannu ag eraill, gwna hynny gyda haelioni; os wyt yn arweinydd, gwna'r gwaith gydag ymroddiad; os wyt yn dangos tosturi, gwna hynny gyda llawenydd.

Romans 12. 1-8

I appeal to you therefore, brothers and sisters, by the mercies of God, to present your bodies as a living sacrifice, holy and acceptable to God, which is your spiritual worship. Do not be conformed to this world, but be transformed by the renewing of your minds, so that you may discern what is the will of God—what is good and acceptable and perfect.

For by the grace given to me I say to everyone among you not to think of yourself more highly than you ought to think, but to think with sober judgement, each according to the measure of faith that God has assigned. For as in one body we have many members, and not all the members have the same function, so we, who are many, are one body in Christ, and individually we are members one of another. We have gifts that differ according to the grace given to us: prophecy, in proportion to faith; ministry, in ministering; the teacher, in teaching; the exhorter, in exhortation; the giver, in generosity; the leader, in diligence; the compassionate, in cheerfulness.

Mathew 16. 13-20

Daeth Iesu i barthau Cesarea Philipi, a holodd ei ddisgyblion: "Pwy y mae pobl yn dweud yw Mab y Dyn?" Dywedasant hwythau, "Mae rhai'n dweud Ioan Fedyddiwr, ac eraill Elias, ac eraill drachefn, Jeremeia neu un o'r proffwydi." "A chwithau," meddai wrthynt, "pwy meddwch chwi ydwyf fi?" Atebodd Simon Pedr, "Ti yw'r Meseia, Mab y Duw byw." Dywedodd Iesu wrtho, "Gwyn dy fyd, Simon fab Jona, oherwydd nid cig a gwaed a ddatguddiodd hyn iti ond fy Nhad, sydd yn y nefoedd. Ac 'rwyf fi'n dweud wrthynt mai ti yw Pedr, ac ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys, ac ni chaiff holl bwerau Hades y trechaf arni. Rhoddaf iti allweddau teyrnas nefoedd, a beth bynnag a waherddi ar y ddaear a waherddir yn y nefoedd, a beth bynnag a ganiatei ar y ddaear a ganiateir yn y nefoedd." Yna gorchmynnodd i'w ddisgyblion beidio â dweud wrth neb mai ef oedd y Meseia.

Matthew 16. 13-20

Now when Jesus came into the district of Caesarea Philippi, he asked his disciples, 'Who do people say that the Son of Man is?' And they said, 'Some say John the Baptist, but others Elijah, and still others Jeremiah or one of the prophets.' He said to them, 'But who do you say that I am?' Simon Peter answered, 'You are the Messiah, the Son of the living God.' And Jesus answered him, 'Blessed are you, Simon son of Jonah! For flesh and blood has not revealed this to you, but my Father in heaven. And I tell you, you are Peter, and on this rock I will build my church, and the gates of Hades will not prevail against it. I will give you the keys of the kingdom of heaven, and whatever you bind on earth will be bound in heaven, and whatever you loose on earth will be loosed in heaven.' Then he sternly ordered the disciples not to tell anyone that he was the Messiah.

Ôl Gymun 106

Dduw tosturi, rhoddaist heibio ein pechodau yn y cymun hwn gan roi i ni dy iachâd: caniatâ i ni a wneir yn gyfan yng Nghrist ddwyn yr un iachâd i'r byd drylliedig hwn, yn enw Iesu Grist ein Harglwydd.

Post Communion Prayer 106

God of compassion, in this eucharist you have set aside our sins and given us your healing: grant that we who are made whole in Christ may bring that healing to this broken world, in the name of Jesus Christ our Lord.